# Cyfnodau cyfrifyddu ar gyfer ffurflenni'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Mae'r diagram isod yn esbonio'r cyfnodau cyfrifyddu a ddefnyddir gan weithredwyr safleoedd tirlenwi ar eu ffurflenni treth.

Mae'r ddau far ar gyfer Gweithredwr A a Gweithredwr B yn rhoi esiamplau o weithredwyr safleoedd tirlenwi gyda chyfnodau cyfrifyddu gwahanol. Mae gan Weithredwr A gyfnod cyfrifyddu safonol ar gyfer adrodd yn ôl i ACC, sy'n cyd-fynd â diwedd ein chwarteri adrodd yn ôl. Mae mwyafrif y gweithredwyr safleoedd tirlenwi'n adrodd yn ôl i ACC ar y sail hon.

Mae Gweithredwr B wedi cytuno ar gyfnod cyfrifyddu gwahanol gydag ACC, gydag amser cychwyn a gorffen gwahanol i'n chwarteri adrodd yn ôl safonol. Mae nifer bach o weithredwyr safleoedd tirlenwi'n adrodd yn ôl i ACC ar y sail hon.



